**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **26 Mawrth 2014**

**Aelod/Swyddog Arweiniol: Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol**

**Awdur yr Adroddiad:** **Fel yr uchod**

**Teitl:** **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol**

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i’r Pwyllgor ar gynnydd diweddaraf Archwilio Mewnol o ran cyflwyno gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth gymell gwelliant.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

I gyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor ynghylch:

- cyflawni ein Cynllun Sicrwydd ar gyfer 2013/14 (Atodiad 1)
- adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar a gyhoeddwyd (Atodiad 2)
- ymateb y rheolwyr i faterion a godwyd gennym (Atodiad 3)
- Perfformiad Archwilio Mewnol (Atodiad 4)

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- Pwyllgor i ystyried a rhoi sylwadau ar gynnydd a pherfformiad Archwilio Mewnol hyd yma yn 2013/14
- Pwyllgor i ystyried a rhoi sylwadau ar adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar a gyhoeddwyd a dilyniant a gwblhawyd

## 4. Manylion am yr Adroddiad

***Cyflwyno Cynllun Sicrwydd Archwilio Mewnol 2013/14***

4.1 Mae Atodiad 1 yn rhoi dadansoddiad o'n gwaith yn ystod 2013/14, o'i gymharu â’r Strategaeth Archwilio Mewnol. Mae'n cynnwys sgoriau sicrwydd a nifer o faterion a godwyd ar gyfer yr adolygiadau a gwblhawyd, diffiniadau a ddefnyddir i ffurfio ein sicrwydd archwilio a'r mesurau a ddefnyddiwyd i asesu'r lefelau risg ar gyfer materion a godwyd.

4.2. O ganlyniad i wasanaeth yn symud, tendro am gontractau allanol, problemau TG gyda hen liniaduron, gweithredu EDRMS a gweithio ar ymchwiliadau arbennig, rydym wedi bod yn blaenoriaethu’r prosiectau hynny a ystyrir yn 'Sicrwydd Hanfodol' yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf er mwyn sicrhau

eu bod yn cael eu cwblhau i o leiaf hyd at gam adroddiad drafft erbyn 31 Mawrth 2014. Mae hyn yn golygu y bydd rhai prosiectau'n cael eu gohirio tan ar ôl 1 Ebrill 2014 a byddant yn ffurfio rhan o waith sicrwydd y flwyddyn nesaf.

***Crynodeb o Adroddiadau Archwilio Mewnol Diweddar***

4.3. Mae ein hadroddiadau'n defnyddio lliwiau ar gyfer mesur sicrwydd fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| **Gwyrdd** | Sicrwydd Uchel | Risgiau a rheolaethau wedi'u rheoli'n dda |
| **Melyn** | Sicrwydd Canolig | Risgiau wedi'u nodi ond gellir eu cadw ar lefel gwasanaeth |
| **Amber** | Sicrwydd Isel | Risgiau wedi'u nodi sydd angen cyfarfod gyda Chyfarwyddwr/Aelod Arweiniol |
| **Coch** | Dim Sicrwydd | Risgiau sylweddol wedi'u nodi sydd angen cynhadledd achos gyda'r aelod/swyddog |

4.4. Mae Atodiad 2 yn rhoi crynodeb o'r adroddiadau Archwilio Mewnol terfynol a gyhoeddwyd ers fy adroddiad ym mis Ionawr 2014. Mae adroddiadau crynodeb gweithredol a chynlluniau gweithredu hefyd yn cael eu cynnwys ar gyfer gwybodaeth bellach.

***Ymateb y rheolwyr i faterion a godwyd gan Archwilio Mewnol***

4.5. Mae'r rhan fwyaf o'n hadroddiadau Archwilio Mewnol yn nodi risgiau a gwendidau rheolaeth. Rydym yn mesur y rhain fel risg allweddol, mawr neu gymedrol. Mae rheolwyr yn cytuno ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r risgiau, gan gynnwys cyfrifoldebau ac amserlenni.

4.6 Rydym yn rhoi gwybod am bob achos lle bydd rheolwyr yn methu ymateb i'n gwaith dilynol neu os ydynt yn mynd dros y dyddiad gweithredu y cytunwyd arno gan fwy na thri mis. Mae'r Pwyllgor hwn yn penderfynu a oes angen cymryd camau pellach e.e. trwy alw'r bobl berthnasol i'w gyfarfod nesaf neu ofyn am adroddiad ysgrifenedig i egluro diffyg cynnydd.

4.7 Mae Atodiad 3 yn dangos yr adolygiadau dilynol a gwblhawyd ers fy adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor hwn, gan gynnwys manylion llawn yr ymateb i ddilyniant Caffael y Gwasanaethau Adeiladu y gofynnodd y Pwyllgor amdano'n flaenorol.

***Perfformiad Archwilio Mewnol***

4.8 Mae Archwilio Mewnol yn mesur ei berfformiad mewn dau faes allweddol:

- Darparu 'Sicrwydd Hanfodol' - Mae'r prosiectau hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau Swyddog Adran 151, yn rheoli ei brif risgiau corfforaethol a chanddo drefniadau cadarn ar waith ar gyfer llywodraethu corfforaethol a chyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol.
- *'Safonau Cwsmer'* - Ystod o ddangosyddion i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth da i'n cwsmeriaid.

4.9 Mae Atodiad 4 yn dangos ein perfformiad hyd yn hyn ar gyfer 2013/14. Rydym ar y trywydd iawn i gyflawni 100% o brosiectau 'Sicrwydd Hanfodol'

erbyn 31 Mawrth 2014. Dylem gyflawni 100% ar yr holl 'Safonau Cwsmer' gyda dau eithriad:

- Ar gyfer un prosiect, rydym wedi rhoi 8 diwrnod gwaith o rybudd o gychwyn prosiect yn hytrach na'r 10 diwrnod angenrheidiol.
- Ar gyfer un prosiect, oherwydd pwysau gwaith, rydym wedi cyhoeddi adroddiad drafft ar ôl 14 diwrnod yn hytrach na'r 10 diwrnod a gytunwyd. Rwy'n cymeradwyo'r oedi hwn yn hytrach na chyfaddawdu ansawdd yr adroddiad drafft.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd a chyngor i bob lefel o reolaeth ac aelodau etholedig ar ansawdd y gweithrediadau o fewn y Cyngor. Mae'n canolbwyntio ar lywodraethu, rheoli risg, perfformiad, effeithlonrwydd a rheoli gweithredol ac ariannol, pob un ohonynt yn hanfodol i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol. Mae hefyd yn cynnal prosiectau i sicrhau bod y Cyngor ar y trywydd iawn i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a phrosiectau penodol i wella effeithlonrwydd y gwasanaeth a moderneiddio.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau penodol na goblygiadau gwasanaeth sy'n codi o'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

Nid yw'r adroddiad hwn angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Mae hwn yn adroddiad cynnydd ac nid oes angen unrhyw ymgynghori.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw effaith ariannol; felly nid oes angen datganiad.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae hwn yn adroddiad cynnydd sy'n dangos cynnydd da tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, felly nid oes unrhyw risgiau ar hyn o bryd.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn ond mae'n ofynnol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i'r 'pwyllgor archwilio' oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor.